

Darganfod Brenin Gwahanol

Cawsom gyfle yn ystod yr wythnosau diwethaf i deithio gyda Iesu ar ei lwybr tuag at Jerwsalem a Chalfaria. Y tro hwn, ar drothwy Sul y Blodau cawn ein tywys gan y **Parch Olwen Williams**, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd i fyfyrion gyda Phedr am arwyddocâd yr orymdaith fuddugoliaethus honno.

Dyddiau ddigon rhyfedd oedd y rheiny, Roedd Iesu wedi bod yn dweud llawer o wahanol storïau wrth y bobl, a llawer yn gwrandio arno, ac yng nghanol hyn i gyd yn mynd â ni, ei ffrindiau o, o'r neilltu a dweud y wrthym ei fod yn mynd i farw, ac yn dod yn ôl yn fyw. 'Doedden ni ddim yn deall yn iawn, 'roedd o'n ddirgelwch i ni.

Ar y diwrnod arbennig yma, cychwynnodd am Jerwsalem a ninnau yn ei ddilyn fel arfer. 'Roedd o mewn ychydig o frys, ac wrth i ni sgwrsio a thrafod â'n gilydd ar y ffordd dyma fo'n aros, yn sydyn.

Trodd at loan a finau a dweud, "Ewch i'r pentref agosaf, a chewch hyd i ebol wedi ei rwymo, dewch â fo i mi".

I be oedd arno eisiau ebol, cerdded byddem ni i bob man, ac yr oeddem ofn i berchennog yr ebol ein dal ni. Ond yr hyn sy'n rhyfedd yw, fod hwnnw'n gwybod am y peth.

Am nad oedd neb wedi bod ar ei gefn o'r blaen, taflasom gotiau arno i'w wneud yn fwy cyfforddus, a hefyd taflu rhai cotiau ar y ffordd hefyd, a cherdded y tu ôl iddo.

Newidiodd popeth mor sydyn, dechreuodd y bobl oedd ar y ffordd waeddi, "Mae'r brenin yn dod." Wow brenin, a dyma fi'n cofio be oeddwn i wedi ei ddarllen yn llyfr Secharia "Gwaeddych yn llawen bobl Jerwsalem, edrych mae dy frenin yn dod, mae e'n gyfiawn ac yn achub, mae'n addfwyn ac yn marchogaeth ar asyn, ie ar ebol asen."

Iesu oedd hwn ein ffrind ein harweinydd, ond nid brenin arferol. Er, roeddem ni fel cenedl yn disgwyl y Meseia, brenin ac arweinydd i'n hachub

SUL Y BLODAU



*"Dywedwch wrth ferch Seion,
'Wele dy frenin yn dod atat,
yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn,
ac ar ebol, llwdn anifail gwaith."*

Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchmynnodd Iesu iddynt; daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd. Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi:

*"Hosanna i Fab Dafydd!
Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf!"*

Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi.

Mathew 21: 5-10

oddi wrth y Rhufeiniaid oedd yn ein gorthrymu.

Oedd o'n mynd i wneud hynny? Wel 'roedd y rhan fwyaf o'r bobl ar hyd y ffordd yn meddwl hynny. Beth bynnag, am fod y moli a'r gwaeddi yn mynd yn uwch ac yn uwch, aeth rhyw gynnwrf rhyfedd drwy'r lle i gyd. 'Doedd y Phariseaid ddim yn hapus am hyn, ac yn dweud fod y byd wedi mynd ar ei ôl o.

Wrth fynd ar hyd y ffordd dyma ni'n sylwi fod Iesu'n wylo. Na nid brenin bygythiol mo hwn ond un yn llawn cariad. Roedd o'n wylo dros Jerwsalem, am ei fod wedi methu ei adnabod o, ac meddai yn ddistaw o dan ei wynt, "mor aml dwi wedi hiraethu am gael casglu dy blant at ei gilydd fel mae iâr yn casglu ei chywion dan ei hadenydd, ond doedd gen ti ddim diddordeb."

Mi oeddwn bron â chrio fy hun wrth glywed hyn, darlun tlws ynte?

Un felly oedd o, yn tosturio wrth bawb.

'Roedd o wedi dweud ei fod yn mynd i gael ei ddal a'i gam drin a'i ladd, ac eto yn meddwl am eraill, ac erbyn meddwl yn ôl, dyna pam y cafodd ei gam-drin, a'i ladd am ei fod yn marw dros eraill. Yn enwedig rhywun fel fi ddywedodd, ymhen ychydig ddyddiau, nad oeddwn yn ei nabod.

Brenin y brenhinoedd oedd hwn, yr un y bydd y byd yn ei ganmol am dragwyddoldeb, yr un roddodd ei einioes dros eraill.

Wna i byth anghofio'r cariad ddangosodd i mi ar lan y môr wedi iddo ddod yn ôl yn fyw fel oedd o wedi dweud y byddai. Gofynnodd i mi dair gwaith os oeddwn yn ei garu, ac allwn i

ddim gwadu y tro yma, ac meddai "Dilyn fi".

Mae llawer wedi disgwyl am frenin gwahanol ar hyd y blynyddoedd, ond fel y dywedais yn fy llythyr, "Wrth inni ddod i nabod Iesu Grist yn well, mae ei nerth dwyfol yn rhoi i ni bopeth sydd ei angen i fyw fel mae Duw eisiau i ni fyw."